Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board



# Creu Gwasanaethau a Chefnogaeth Ddementia sy’n Hygyrch

**Mae’n bwysig bod gwasanaethau a chymorth yn hygyrch i bobl sy’n byw gyda dementia, a’u gofalwyr.**

**Rydyn ni’n gwybod y byddai pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn hoffi cael cymorth a gwybodaeth wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion. Dyna pam ei bod hi’n bwysig edrych ar sut y gallwn ni addasu dulliau cyfathrebu, gwasanaethau a chymorth fel bod pobl yn gallu cael mynediad at wybodaeth, cyngor a gofal mewn ffordd sy’n addas iddyn nhw.**





## BETH SY’N BWYSIG I BOBL SY’N BYW GYDA DEMENTIA A’U GOFALWYR?

Hoffai pobl sy’n byw gyda dementia a’u gofalwyr weld gwasanaethau a chymorth mwy hygyrch ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Hoffen nhw weld addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, a fydd yn helpu pobl â dementia i fynychu apwyntiadau’n hawdd, i dderbyn gwybodaeth a chyngor.

Hoffen nhw hefyd weld cyfathrebu mwy hygyrch ynghylch dementia yn cael ei rannu fel bod pobl sydd mewn perygl o gael dementia, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, yn gallu deall arwyddion a symptomau a sut i ofyn am gyngor.

## BETH FYDDWN NI’N EI WNEUD:

Mae’r argymhellion hyn wedi cael eu cynnwys yn Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan bellach, a grëwyd gyda dros 1800 o bobl â phrofiad byw gan gynnwys pobl â dementia, eu hanwyliaid a’u gofalwyr.

**Byddwn ni’n:**

- Gwrando ac ymateb i'n cymunedau ynghylch sut olwg sydd ar ofal dementia da yn ein rhanbarth.
- Gweithio tuag at wella gwasanaethau, fel y gall pobl â dementia gael y gofal a'r cymorth gorau posibl.

## DYWEDODD POBL

**Mae’n gas gen i’r term hunan-gymorth. Pe bawn i'n gallu helpu fy hun, fe fyddwn i’n gwneud. Dydych chi ddim yn gwybod beth ydych chi ddim yn ei wybod."**

**Parhad drosodd.**

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board





# Creu Gwasanaethau a Chefnogaeth Ddementia sy’n Hygyrch (Parhad)

**"Y bobl orau i sylwi ar newidiadau yn rhywun yw eu hanwyliaid neu’u gofalwyr. Fel arfer maen nhw'n codi pethau'n llawer cyflymach nag y gallwn ni."**



## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

**Ein nod yw:**

- Creu mwy o gymunedau cynhwysol i ddementia.
- Codi ymwybyddiaeth o arwyddion a symptomau dementia i annog pobl i geisio cymorth gan sicrhau diagnosis cynharach.
- Gweithio tuag at ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at apwyntiadau drwy addasu gwasanaethau i gefnogi pobl â phroblemau gwybyddol yn well.

